

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
Y FANYLEB PERSON

ADRAN	Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
TEITL Y SWYDD	Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg
RHIF Y SWYDD	NU190
GRADD	11
LLEOLIAD	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran '*Profiad a Gwybodaeth Arall*'). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	Tystiolaeth	Hanfodol/ Dymunol	Dull Canfod
Cymwysterau	Gradd mewn pwnc perthnasol i'r swydd hon a/neu brofiad perthnasol mewn rheoli perfformiad/wella parhaus/rheoli newid*.	Hanfodol*	Ffurflen Gais*
Gwybodaeth/ Profiad	Gwybodaeth a dealltwriaeth o gynllunio busnes, arfau a thechnegau rheoli perfformiad.*	Hanfodol*	Ffurflen Gais/Proses Ddethol*
	Gwybodaeth a phrofiad o ysgrifennu adroddiadau/cynlluniau sefydliadol yn unol â gofynion deddfwriaethol.*	Hanfodol*	Ffurflen Gais/Proses Ddethol*
	Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o ddefnyddio arfau a thechnegau rheoli newid a gwella parhaus	Hanfodol	Proses Ddethol
	Profiad ymarferol o becynnau Microsoft Office, h.y. Outlook, Word, Excel.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Profiad o arwain timau prosiect a/neu weithio mewn timau prosiect traws adrannol	Dymunol	Proses Ddethol
	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Dymunol	Ffurflen Gais

Ffactor	Tystiolaeth	Hanfodol/ Dymunol	Dull Canfod
Arddull Bersonol	Yn rhagweithiol wrth hyrwyddo newid, ac â'r gallu i geisio cyfleoedd i hyrwyddo a gwella effeithiolrwydd sefydliadol.*	Hanfodol*	Ffurflen Gais/Proses Ddethol*
	Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwytiedig mewn sefyllfaoedd hynod heriol yn gyson.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i hyrwyddo a rheoli amrywiaeth ac arddangos agwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa	Hanfodol	Proses Ddethol
Rhyngbersonol	Y gallu i gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd, yn aml yn darparu gwybodaeth gymhleth a sensitif *	Hanfodol*	Ffurflen Gais/Proses Ddethol*
	Yr ymrwymiad a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion a thimau, i wella effeithiolrwydd gweithredol	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i arwain, cynnwys ac ysgogi eraill o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.	Hanfodol	Proses Ddethol
Tasg	Y gallu i ddeall a chymhwyso gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a gofynion allweddol, h.y. y gallu i ymchwilio, dehongli a dadansoddi gwybodaeth gymhleth*	Hanfodol*	Ffurflen Gais/Proses Ddethol*
	Y gallu i arwain grwpiau a chyflawni rhagoriaeth wrth sefydlu, cynnal a rheoli anghenion perfformiad.	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i adnabod effaith a goblygiadau gwleidyddol posib o safbwynt strategol	Hanfodol	Proses Ddethol

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

